

ITIA500

Cyfweliad

Torri'r Garw

- Ble bydda i mewn deng mlynedd?

Nod ac Amcanion

- Atebion cadarnhaol a negyddol
- Adolygu Cywair priodol
- Yr Amodol
- Ymarfer cwestiynau cyfwelaid.

Cywair

- Sai'n gwbod
- Sai'n siŵr
- Fi'n meddwl
- Gwnes i fynd
- Ni'n dysgu
- Dylanwad y Saesneg: Geirfa

Cwestiynau agored a chaeëdig

1. Mae dau brif fath o gwestiynau – rhai agored a chaeëdig.

Cwestiwn agored: Beth gawsoch chi i ginio heddiw?

Cwestiwn caeëdig: Gawsoch chi ginio heddiw?

2. Fel y gwelwch, gallwch roi **nifer** o atebion posib i **gwestiwn agored**, ond dim ond ateb **cadarnhaol** neu **negyddol** y gallwch eu rhoi i **gwestiwn caeëdig**.

Ateb yn gadarnhaol ac yn negyddol

Fel y gwyddoch, nid oes un ateb cadarnhaol nac un ateb negyddol yn y Gymraeg.

Ceir, yn lle, atebion cadarnhaol a negyddol sy'n ateb yr union gwestiwn a ofynwyd.

Mae fel chwarae'r gem Saesneg "Yes/No"
lle na chaniateir dweud "Yes/No"!

Patrymau Dirfodol / Amhendant

Oes?

oes

nac oes

Oedd?

oedd

nac oedd

Fydd?

bydd

na fydd

Presennol

Ydw i?
Wyt ti?
Ydy e?
Ydy hi?
Ydyn ni?
Ydych chi?
Ydyn nhw?

wyt/ydych
ydw
ydy
ydy
ydych/ydyn
ydw/ydyn
ydyn

nac wyt/ydych
nac ydw
nac ydy
nac ydy
nac ydych/ydyn
nac ydw/ydyn
nac ydyn

Amherffaith

oeddwn i?

oeddet/
oeddech

nac oeddet/
oeddech

oeddet ti?

oeddwn

nac oeddwn

oedd e?

oedd

nac oedd

oedd hi?

oedd

nac oedd

oedden ni?

oedden

nac oedden

oeddech chi?

oeddwn/oedden

nac oeddwn/oedden

oedden nhw?

oedden

nac oedden

Gorffennol

-es/-ais i?	do	naddo
-est ti?	do	naddo
-odd e?	do	naddo
-odd hi?	do	naddo
-on ni?	do	naddo
-och chi?	do	naddo
-on nhw?	do	naddo

Dyfodol

fydda i?
fyddi di?
fydd e?
fydd hi?
fyddwn ni?
fyddwch chi?
fyddan nhw?

byddi/byddwch
bydda(f)
bydd
bydd
byddwn
bydda(f)/byddwn
byddan

na fyddi/ fyddwch
na fydda(f)
na fydd
na fydd
na fyddwn
na fydda(f)/fyddwn
na fyddan

Dyfodol cryno

-a i?	Gwnei	Na wnei
-i di?	Gwna(f)	Na wna(f)
-ith e/o?	Gwneith	Na wneith
-ith hi?	Gwneith	Na wneith
-wn ni?	Gwnawn	Na wnawn
	Gwnewch	Na wnewch
-wch chi?	Gwna(f)\	Na wna(f)
	Gwnawn	Na wnawn
-an nhw?	Gwnan	Na wnan

Amodol

fyddwn i?	byddet/byddech	na fyddet/fyddech
fyddet ti?	byddwn	na fyddwn
fyddai fe?	byddai	na fyddai
fyddai hi?	byddai	na fyddai
fydden ni?	bydden	na fydden
fyddech chi?	byddwn/bydden	na fyddwn/fydden
fydden nhw?	bydden	na fydden

Amodol - Dylwn...

ddylwn i?	dylet/dylech	na ddylet/ddylech
ddylet ti?	dylwn	na ddylwn
ddylai fe/fo?	dylai	na ddylai
ddylai hi?	dylai	na ddylai
ddylen ni?	dysten	na ddylen
ddylech chi?	dylwn/dysten	na ddylwn/ddysten
ddylen nhw?	dysten	na ddylen

Amodol - Hoffi

hoffwn i?

hoffet/hoffech

na hoffet/hoffech

hoffet ti?

hoffwn

na hoffwn

hoffai fe?

hoffai

na hoffai

hoffai hi?

hoffai

na hoffai

hoffen ni?

hoffen

na hoffen

hoffech chi?

hoffwn/hoffen

na hoffwn/hoffen

hoffen nhw?

hoffen

na hoffen

Cwestiynau Pwysleisiol

Sera ydy hi?

Non oedd yn siarad?

Fi fydd yn arwain y ddarlith?

Ie/Nage

Beth yw'r atebion?

Yng Nghaerfyrddin gest ti dy eni?

Brechdanau fyddi di'n bwyta i ginio heddiw?

Est ti i'r dre ddoe?

Chwech un wyth tri dau un ydy dy rif ffôn di?

Fyddi di'n coginio swper heno?

Yn Marks and Spencers brynaist ti'r salad?

Yn Abertawe roedd det ti'n dysgu?

Hoffai hi fynd am hanner awr wedi saith?

Dau frawd oedd gyda hi?

Welaist ti ffilm ddoe?

Deg plentyn oedd yn absennol ddoe?

Y Gadair Goch!



- Gwaith grwp
- Un person i eistedd yn y **gadair goch**.
- Pawb arall i ofyn **cwestiynau amrywiol**, **amseroedd amrywiol** a phersonau amrywiol!
- Pan fydd y person yn y gadair yn ateb yn anghywir, rhaid i berson arall gymryd ei le!
- Trafodwch yr atebion anghywir...

Yr Amodol

Beth hoffech chi...?

Hoffwn i...?

Petawn / Pe bawn i'n cael yn swydd....

Byddwn i'n....

Yr Amodol: Gwallau Cyffredin

Hoffai i....

Hoffwn i

Hoffai ef

Hoffen i...

Hoffwn i

Hoffen ni / Hoffem

Yr Amodol - Bod

Dyma ffurfiau amodol y ferf bod.

Cadarnhaol Anffurfiol / Ffurfiol	Cwestiwn	Negyddol
Baswn i/Byddwn i	Faswn i?/Fyddwn i?	Faswn i ddim/Fyddwn i ddim
Baset ti/Byddet ti	Faset ti?/Fyddet ti?	Faset ti ddim/Fyddet ti ddim
Basai e/Byddai ef	Fasai e?/Fyddai ef?	Fasai e ddim/Fyddai ef ddim
Basai hi/Byddai hi	Fasai hi?/Fyddai hi?	Fasai hi ddim/Fyddai hi ddim
Basen ni/Bydden ni	Fasen ni?/Fyddden ni?	Fasen ni ddim/Fyddden ni ddim
Basech chi/Byddech chi*	Fasech chi?/Fyddech chi?	Fasech chi ddim/Fyddech chi ddim
Basen nhw/Bydden nhw*	Fasen nhw?/Fyddden nhw?	Fasen nhw ddim/Fyddden nhw ddim

***Newidiwch y rhain ar y daflen!**

Yr amodol perffaith (would have)

Rydym yn defnyddio **wedi** gyda ffurfiau'r amodol i gyfleu'r ystyr *would have* + berf yn Saesneg, e.e.

Bydden nhw wedi cyrraedd mewn pryd.

Fyddwn i ddim wedi talu can punt am docyn.

Fyddet ti wedi gwrando arni?

Cofiwch:

Dydyn ni ddim yn gallu cael **yn/'n** a **wedi** nesaf at ei gilydd, e.e.

Byddai e'**n wedi** ennill. X

Byddai e **wedi** ennill. ✓

Yr amodol perffaith parhaus (would have been)

Rydym yn defnyddio **wedi bod yn** gyda ffurfiau'r amodol i gyfleu'r ystyr *would have been* yn Saesneg, e.e.

*Bydden nhw **wedi bod yn** hapus iawn.*

*Fyddwn i ddim **wedi bod yn** bwyta cyn y ras.*

*Fyddet ti **wedi bod yn** anfon negeseuon?*

Pe

Rydym yn defnyddio **pe** gyda'r ffurfiau amodol i fynegi ansicrwydd neu amheuaeth, e.e.

Pe baswn i'n gweithio'n galed, baswn i'n siwr o gael dyrchafiad.

Pe byddwn i'n gyfoethog, byddwn i'n teithio o gwmpas y byd.

Yn aml, mae'r ffurfiau ffurfiol yn cael eu byrhau fel a ganlyn.

Pe bawn i

Pe baet ti

Pe bai e/o

Pe bai hi

Pe baen ni

Pe baech chi

Pe baen nhw

Amodol...

Pe baw**n** i

Pe ba**e**t ti

Pe ba**i** o/hi

Pe ba**e**m ni

Pe ba**e**ch chi

Pe ba**e**n(+) nhw

Terfyniadau'r amherfffaith



Creu brawddeg...

Wrth greu brawddeg gyda'r ferf amodol, mae'n amlwg fod angen dwy ran i'r frawddeg. Mae'n holl bwysig fod y ferf yn y ddwy ran yn cyd-fynd â' i gilydd e.e.

Pe ba**wn** i'n gyfoethog, mi bryn**wn** i blasdy.

Pe ba**i** Rhys yn adolygu, bydd**ai**'n llwyddo.

Pe ba**em** yn cyrraedd yn fuan, ca**em** gyfle i siopa.

Beth am greu?

Pe bai Sian...

Pe baech chi...

Pe byddet ti...

Pe baem ni...

Pe bawn i

Defnyddio PE ar ddechrau'r ail gymal...

Does dim rhaid i'r amod **PE** ddod ar ddechrau'r frawddeg, gellir ei ddefnyddio i greu'r ail gymal e.e.

1. Buaswn yn prynu plasdy pe bawn i'n gyfoethog.
2. Byddai Rhys yn llwyddo pe bai'n adolygu.
3. Buasem yn gallu mynd i siopa pe baem yn cyrraedd yn fuan.

would / should/ could

Terfyniadau'r amherffraith dydd eu hangen i ffurfio rhain yn y Gymraeg e.e.

I would like... - hoffwn i

He would like ...- hoffai o

We should go ...- dylem fynd

You should read ...- dylet ddarllen

I could go... - gallwn fynd

They could see - gallent weld

Pe + negyddol

Rydym yn defnyddio'r patrwm a ganlyn i ffurfio'r negyddol.

Fydden ni ddim wedi ennill **pe na** baen ni wedi ymarfer gymaint.

Byddwn i'n gyfoethog **pe na** bawn i wedi cael plant.

Byddai e'n anhapus iawn **pe na** bai wedi priodi.

Cofiwch

Gyda'r presennol neu'r dyfodol rhaid defnyddio **os**, e.e.

Os bydd hi'n braf yfory awn i lan y môr.

Os dysgaf fy ngwaith, rwy'n siwr o lwyddo.

Yr amodol Pe/Os

Mae camgymeriadau yn y brawddegau isod. Cywirwch nhw a rhowch resymau dros eich newidiadau.

Byddwn i wedi paratoi gwers **os byddech** chi wedi gofyn yn gynt.
Gallet ti ennill y gystadleuaeth **os byddet** ti'n ymarfer yn fwy aml.
Byddi di'n gallu mynd allan i chwarae **pe byddi** di'n gorffen dy waith mewn pryd.
Byddaf yn cael ffrae gan yr ysgrifenyddes eto **pe byddaf** yn anghofio gwneud y gofrestr.
Byddaf yn mynd ar y cwrs **pe byddai'r** Llywodraeth yn talu.
Fyddet ti'n ymddiswyddo **os byddet** ti'n cael plentyn arall?
Hoffai hi fynd i Gaerdydd **os basai'n** gallu cael swydd yno.
Byddant yn mynd ar wyliau tramor eleni pe byddai mwy o arian ganddynt.
Baswn i wedi rhoi mwy o ymdrech i baratoi'r wers **os baswn** i wedi cael mwy o amser.
Ymddiheuraf wrtho **pe byddai** ef hefyd yn ymddiheuro.

Cyfieithu (ffurfiol / anffuriol)

- Fyddwn i ddim wedi bwyta'r bwyd pe baet wedi dweud wrthyf.
- Byddai wedi ei ddysgu pan oedd yn fyfyrwraig.
- Fydden nhw ddim wedi bod yn hwyr pe baent /tasen nhw wedi gwrando arna i.
- Fyddai e ddim wedi bod gartref cyn deuddeg o'r gloch.
- Fyddech chi wedi ceisio pe baech yn gwybod?
- Fyddai hi ddim wedi talu am y got pe na bai hi'n ei hoffi.
- Hoffwn i ddim bod wedi byw yna.
- Fyddai e wedi siarad â fi pe bawn i wedi mynd yna?
- Fydden ni ddim wedi bod yn hapus yn yr ysgol honno.
- Fyddai hi ddim wedi agor y drws i fi.

- Nid oes rhaid i chi ruthro i ateb - cymerwch ennyd i feddwl am yr hyn yr ydych am ddweud. Os gofynnir i chi am rywbeth na wyddoch amdano, byddwch yn onest a dweud hynny.

Paratoi cwestiynau

- Dylech baratoi rhai cwestiynau i chi ofyn i'r cyfwelydd. Bydd hyn yn dangos fod gennych ddiddordeb mewn gweithio iddynt a'ch bod wedi bod yn gwrando trwy gydol y cyfweliad. Dyma rai enghreifftiau:
- *Ym mha ffyrdd y bydd dyletswyddau'r swydd yn newid neu yn datblygu yn ystod y ddwy neu dair blynedd nesaf?*
- *I bwy y bydda'i yn gyfrifol?*
- *Beth yw athroniaeth hyfforddi'r cwmni?*
- *Sut bydd fy llwyddiant yn cael ei fesur?*
- *Beth sy'n digwydd nesa?*

Sefyllfa Siarad

- Mewn grwpiau o dri.
- Chwarae rôl
- Dau berson yn cyfweld a'r llall.
- Gofynwch dri neu bewar cwestiwn o'r rhestr.
- Gofynwch gwestiynau atodol.
- Ysgrifennwch adborth yn sensitif.

Adfyfyrio

- Oeddech chi wedi cyflwyno'r cwestiynau yn glir ac yn hyderus?
- Oeddech chi wedi amrywio eich llais?
- A wnaethoch chi osgoi defnyddio geiriau ac ymadroddion Saesneg?
- Oeddech chi wedi defnyddio llawer o eiriau amrywiol?
- A oedd rhai o'r cwestiynau yn rhai agored ?
- A wnaethoch chi wrando ac ymateb i atebion y cyfwelai? A wnaethoch chi holi unrhyw gwestiynau ychwanegol a ddeilliodd o'r atebion a gawsoch?
- Pe bawn i'n cael y cyfle eto, buaswn i yn :